Croeso

Mae gennyn ni lawer o newyddion i chi yn y rhifyn hwn felly beth am wneud paned o de (neu siocled poeth, mae'n hydref erbyn hyn, wedi'r cyfan) i'ch hun a setlo i lawr i'w ddarllen ac, fel ag erioed, os oes unrhyw beth hoffech i ni ei drafod, neu os oes gennych chi stori yr hoffech ei dweud, mae ond angen cysylltu â ni.

Hefyd yn y rhifyn hwn:

- Newyddion diweddaraf pecyn cymorth ymgysylltu â phreswylwyr
- System Ynni Ddeallus (IES)
- Rhestr Fer Gwobrau RESI



Llwybr i Sero

Rydyn ni wedi bod yn brysur yn gweithio'n agos gydag adran Gwyddoniaeth Ymddygiadol **Coleg Prifysgol Llundain** (UCL) i fireinio a datblygu pecyn cymorth ymgysylltu â phreswylwyr. Bydd hwn yn cynnwys adnoddau y gall y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid i ni eu defnyddio i gefnogi eu proses ehangach o ymgysylltu â phreswylwyr – o'r cyflwyniad holl-bwysig yna i Ôl-osod er mwyn

Optimeiddio trwodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw wrth i waith ddechrau yn eu cartrefi.

Rydyn ni wrthi'n cwblhau ein dogfen negeseuon allweddol, negeseuon trosfwaol a holi ac ateb. Mae ein hastudiaethau achos gyda **Chlwyd Alyn**, **Cymdeithas Tai Merthyr Tudful** a **Thai Tarian** wedi cael eu ffilmio ac yn cael eu golygu erbyn hyn, ac rydyn ni mewn trafodaethau cynnar â **Yoke Creative** am ddatblygu animeiddiad i esbonio taith Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae ein dylunydd graffig yn brysur yn llunio ac yn cwblhau graffeg ac arluniadau hefyd.

Mae sawl dogfen o fewn y ffolder cyffredin yn barod i chi eu defnyddio, ond byddwn ni mewn cysylltiad gyda mwy o wybodaeth pan fydd yr adnoddau wedi'u cwblhau.

Offer Digidol

System Ynni Ddeallus (IES)

Trwy gydol Medi ymunodd mwy na 50 o osodwyr a phartneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig â Sero i glywed am y newidiadau i'n IES, gan gynnwys lansio Porth gosodwyr ar-lein Ôl-osod er mwyn Optimeiddio newydd. Bydd gan osodwyr cymeradwy fynediad i fideos pwrpasol ar-lein i hwyluso hyfforddiant gwell a dysgu parhaus i bob gosodwr IES. Mae penodau i'r fideos fel y gall gosodwyr gyrchu gwybodaeth fanwl am sut y dylai pob cydran IES gael ei gosod, ei gwefru a'i chomisiynu.

Dwedodd Jim McArdell, Pennaeth Prosiectau Sero;
"Mae Hyfforddiant Gosod wedi'i ddarparu gyda gosodwyr a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd â diddordeb trwy 2 sesiwn o gyflwyniadau Zoom. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau holi ac ateb i annog unrhyw adborth am welliannau a gwelliant parhaus. Mae cymorth gosod yn cael ei gynnig ar safleoedd hefyd am IES cyntaf pob RSL sy'n cael ei osod, sydd wedi derbyn croeso positif hyd yn hyn, gan gynnig cyfle unwaith eto am adborth a gwelliant parhaus. Mae'r llawlyfr a gafodd ei gynhyrchu yn cael ei ddiweddaru'n gyson hefyd a'i hail-gyhoeddi gan gymryd i ystyriaeth unrhyw adborth neu eglurhad a fu'n ofynnol yn ystod y broses hon"

Hefyd mae'r porth yn caniatáu mynediad byw i'r llawlyfr gosod diweddaraf, strategaethau mesuryddu a chofnodion comisiynu.

Porth Gosodwyr

Mae gennyn ni Borth Gosodwyr newydd sbon lle welwch chi ein fideos hyfforddiant, llawlyfr gosod a thempledau comisiynu i gefnogi'ch gosodwyr pan fyddan nhw'n gosod yr IES.

Mae ein porth ar-lein wedi'i rannu'n gyfres o benodau, felly pa gam bynnag rydych chi wedi'i gyrraedd wrth osod yr IES, gallwch chi wylio cam wrth gam neu ddim ond galw heibio am bwt i brocio'r cof.

Bydd angen eu dull mewngofnodi unigol eu hun ar bob gosodwr felly e-bostiwch **optimisedretrofit@sero.life** er mwyn i hyn gael ei sefydlu.



Yr Economi Sylfaenol

Mae VALUER wedi bod yn y wasg

Mae egwyddor prosiect **VALUER** yn syml ond yn arloesol gan na fu cysylltiad cyn hyn rhwng y sector cyllid ac effeithlonrwydd ynni cartref wrth gyfrifo fforddiadwyedd.

Mae sawl erthygl fanwl yng nghyfryngau'r diwydiant wedi trafod ein cynlluniau i symud ymlaen a'r hyn rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni, gan gynnwys sut y bydd VALUER o fudd i unrhyw un sy'n buddsoddi mewn ailwampio eu cartref i'w wneud yn fwy ynni-effeithlon, gan y bydd y buddsoddiad yna a'r perfformiad gwell yn cael eu cydnabod adeg ei werthu.

Hefyd mae partneriaid y prosiect, **Rightmove**, wedi bod yn gwella eu hoffer digidol sy'n cael eu defnyddio gan syrfëwyr prisio morgais, gan eu cefnogi i gymryd effeithlonrwydd ynni i ystyriaeth wrth asesu gwerth cartref. Nod ymchwil VALUER yw datblygu dealltwriaeth a dangos y gwahaniaeth mewn gwerth sy'n dod i'r amlwg rhwng cartrefi ynni isel ac ynni uchel.

Chwiliwch amdanon ni yn **This is Money** a **Mortgage Solutions**.

Mae ein System Prynu Ddynamig bellach yn fyw

Mae ein System Prynu Ddynamig wedi cael ei datblygu i gynnig ateb caffael syml a hyblyg i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a chyrff eraill sector cyhoeddus i ddod o hyd i gyflenwyr arbenigol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ôl-osod i wneud cartrefi ac adeiladau cyhoeddus yn fwy ynni-effeitthlon ac yn gallu cynnal unrhyw waith atgyweirio mae ei angen.

Drwy ddefnyddio proses syml, bydd cwmnïau a chrefftwyr yn gallu ymuno â'r System ar unrhyw adeg drwy ddangos y sgiliau, profiad a chymwyseddau perthnasol, ac yna bydd ganddyn nhw'r cyfle i ymgeisio am y gwaith.

Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau pellach, sydd ar y gweill!

Rydym wedi cyrraedd y rhestr fer am wobr RESI

Mae Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cyrraedd y rhestr fer am wobr RESI yn y categori newydd Menter yr Argyfwng Hinsawdd – Preswyl.

Mae Gwobrau RESI, sy'n cael eu trefnu gan Property Week, yn cydnabod y sector eiddo preswyl a'i lwyddiannau. Mae'r gwobrau yn dod â chwaraewyr pennaf y farchnad breswyl ynghyd gan gynnwys datblygwyr blaenllaw, landlordiaid, adeiladwyr tai, gweithredwyr, buddsoddwyr, asiantaethau ac awdurdodau lleol.

Mae hwn yn gyflawniad anhygoel ac yn ganlyniad gwaith caled a phenderfyniad pob un o'n partneriaid yn y prosiect.

Diolch a llongyfarchiadau!

RESI AWARDS 10 YEARS
1 DECEMBER 2021
GROSVENOR HOUSE • LONDON

Podlediad BetaTalk

Rydyn ni erbyn hyn wedi cyrraedd episod saith Tymor 4 o **bodlediad BetaTalk** rhagorol, sy'n cael ei gyflwyno gan y dylanwadwr diwydiant Nathan Gambling.

Fel rhan o'n cenhadaeth i ledu'r gair am ÔI-osod er mwyn Optimeiddio (yn enwedig ymhlith cyflenwyr a chrefftwyr y dyfodol) - rydyn ni'n noddi Tymor 4 y podlediad, sy'n edrych ar ystyriaethau ar y llawr mewn perthynas â thechnoleg, sgiliau a hyfforddiant, gyda pheirianwyr ledled y wlad.

Felly, gwnewch baned i'ch hunan a mwynhewch wrando arnyn nhw. Mae dolenni isod.



Episod 1

To Heat Pump Hull & Back

Episod 2

Hybrid Thermol Solar

Episod 3

ÔI-osod gyda PAS2035 a TrustMark

Episod 4

Datgarboneiddio Gwres yn America: trafodaeth â Nate y Sibrydwr Tai

Episod 5

Sgwrsio â John Cantor Awdur y llyfr Heat Pumps for the Home

Episod 6

Mae Dyrannu Parthau Pympiau Gwres yn Gallu Bod yn Wael am Gysur ac Effeithlonrwydd

Episod 7

Beth yw'r Bwyler Gorau – os na allwch chi gael pwmp gwres eto?

Digwyddiadau

Cynhaliodd ein Byddin Ddatgarboneiddio eu hail ddigwyddiad

Yr wythnos diwethaf cynhaliodd ÔI-osod er mwyn Optimeiddio ei ail rith-ddigwyddiad y Fyddin Ddatgarboneiddio, mewn partneriaeth â **GwerthwchiGymru** a **Busnes Cymru**, gan ddod â mentrau bach a chanolig a chrefftwyr sy'n angerddol am fyd di-garbon ynghyd. Roedd y digwyddiad yn gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhestr gynyddol o gyflenwyr posibl y dyfodol am gynnydd y prosiect OR a chynnig manylion am rôl silindrau dŵr clyfar mewn datgarboneiddio cartrefi.

Bydd y blog yn fyw cyn bo hir, felly cadwch lygad allan amdano.

Hoffen ni glywed gennych chi!

Os hoffech chi ddysgu mwy am y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ewch i:	**Optimised Retrofit – Sero Group**
E-bost:	**optimisedretrofit@sero.life**
Dilynwch ni ar Twitter:	**@OptimisedR**
LinkedIn:	**Optimised Retrofit: Overview | LinkedIn**

Am unrhyw ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau, cysylltwch â Grasshopper Communications:

Clare Jones:	**clare@grasshopper-comms.co.uk | 07793 382021**
Damian Kerlin:	**damian@grasshopper-comms.co.uk | 07889 555719**

sero